# Croen Denau

Mae Marged Elen wedi mynd ati i gofnodi rhai o'i meddyliau ar ei thaith yn cyd-fyw ag iselder.  Mae *Croen Denau* yn gofnod rhwydd i'w ddarllen sy'n berthnasol iawn i nifer ohonom;

## *MWDI MARGED*

*Ers i fi allu cofio ma iselder wedi effeithio ar fy mywyd i. Gesi yng ngeni'n grac. Ma' Dad a Mam yn dal i sôn am y sgrechen byddarol diddiwedd gafo nhw am flwyddyn gyfan. Trio popeth – hyd yn oed gweld homeopath lan top y Rhondda i geisio datrys y llefen – dim llwyddiant. Be o nhw ddim yn gwbod odd, "it had only just begun"…..*

*Wrth dyfu lan ro'dd pethe'n mynd ar fy nerfe i yn rhwydd iawn, o ni'n rhan o bob cwmpo mas yn y ty ac yn barod i ffrwydro ar y pethe lleiaf. Odd dad arfer gweud bydde ni'n gallu cwmpo mas gyda ngysgod a gesi i sawl 'nickname' drw hwnna… "Moody Margaret" (esbonio ei hunan), "Kevin" ('the moody teenager' – cymeriad Harry Enfield) a Atila the Hun (tan o ni tua 16 mlwydd oed o ni'n meddwl ma'i brenhines o China odd Atila, nes i fi weld y film 'The Night at the Musuem' a gweld rhyw hen foi blin barfog yn ymosod ar bawb …. cheers mam!).*

Dilynwch hanes Marged gan ddarllen ymhellach yma